Cyfansoddiad Fforwm Treftadaeth Wrecsam

1. Enw

Enw'r grŵp fydd Fforwm Treftadaeth Wrecsam.

2. Nodau ac amcanion

Amcanion Fforwm Treftadaeth Wrecsam yw: -

- Annog a galluogi cyrff cyhoeddus a gwirfoddol i weithio gyda chymunedau lleol er mwyn annog gwerthfawrogiad, cynyddu dealltwriaeth a rôl pobl yn nhreftadaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam a sut i'w gwarchod a'i gwella.

- Datblygu dealltwriaeth o rôl ac effaith treftadaeth a chynyddu'r gefnogaeth a roddir iddi yn yr economi leol.

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a datblygu cymhwysedd y sector treftadaeth leol i'w alluogi i fod yn gynaliadwy.

- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r dreftadaeth leol, gan gynnwys Fforwm Treftadaeth Wrecsam a sefydliadau sy'n aelodau ohono.

- Annog a chynyddu cyfleoedd yn weithredol ar gyfer dysgu gydol oes yn seiliedig ar dreftadaeth leol.

- Hyrwyddo a manteisio ar gyfleoedd i gynhyrchu cyllid ar gyfer treftadaeth leol.

3. Grymoedd

Perfformio unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol fel sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcanion uchod.

4. Aelodaeth

Caiff sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn hyrwyddo amcanion Fforwm Treftadaeth Wrecsam ymaelodi.

Cedwir hawliau pleidleisio gan yr holl sefydliadau cofrestredig sy'n aelodau ac sydd wedi cwblhau eu ffurflenni cais a bydd pob sefydliad cofrestredig sy'n aelod yn cael bwrw un bleidlais. Mae'r sefydliad cofrestredig yn gyfrifol am benderfynu pwy sy'n cael bwrw pleidlais.

Gall unigolion nad ydynt yn aelodau o sefydliadau cofrestredig ymaelodi hefyd. Mae gan bob aelod unigol un bleidlais. Gall y fforwm gyd-ddewis unigolion fel aelodau pleidleisio llawn os yw'n penderfynu gwneud hynny.

Gwneir penderfyniadau mewn consensws os yn bosibl, neu trwy ddangos dwylo mewn pleidlais, pleidlais gudd neu bleidlais trwy'r post pa bynnag un a bennir yn fwyaf priodol a chynhwysol.

Bydd pleidleisiau i ethol cynrychiolwyr mewn cyrff eraill yn digwydd mewn unrhyw gyfarfod a bydd y swyddi'n para tan yr ail-etholiad ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Bydd ffi danysgirfio'n daladwy gan bob aelod a pennir swm y ffi yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

5. Swyddogion

Bydd y swyddogion yn cynnwys cadeirydd, trysorydd ac ysgrifennydd. Cytunir ar ddirprwyo dyletswyddau eraill gan y Pwyllgor Gweithredol fel sy'n briodol.

Gall swyddogion fod yn eu swyddi am uchafswm o dair blynedd ond rhaid iddynt gael eu hail-ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu mewn cyfarfod cyffredinol eithriadol lle mae swyddogion yn camu i lawr.

6. Pwyllgor Gweithredol

Sefydlir Pwyllgor Gweithredol er mwyn: -

- Hyrwyddo gwaith y fforwm a gyrru gweithrediad Strategaeth Dreftadaeth Bwrdeistref Sirol ymlaen.
- Cynnal adolygiadau dechreuol y strategaeth i gael ei gadarnhau gan y fforwm.
- Cynllunio cyfarfodydd y fforwm a pharatoi / comisiynu dogfennau trafod.
- Gwneud penderfyniadau gweithredol yn unol â chynllun dirprwyo fel y cytunwyd yn flaenorol gan y fforwm.

Bydd aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn: cynnwys dim mwy na naw aelod; yn cael eu dethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; yn cynnwys y swyddogion etholedig; yn cynnwys cynrychiolwyr sydd ag ystod o arbenigedd a diddordebau yn y sector treftadaeth leol.

Y cworwm sy'n angenrheidiol i drafod busnes yw o leiaf pump aelod o'r Pwyllgor Gweithredol.

7. Amledd y cyfarfodydd

Bydd y fforwm yn cwrdd bob tri mis. Bydd y lleoliadau'n cylchdroi o amgylch Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

8. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB)

Cynhelir CCB unwaith bob blwyddyn calendr. Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn rhoi chwech wythnos o rybudd ysgrifenedig i'r aelodau o'i fwriad i gynnal CCB, gan nodi'r amser, y lle a'r busnes i'w drafod. Rhoddir rhybudd tebyg yn ysgrifenedig i

aelodau unigol y Pwyllgor Gweithredol. Bydd y Cadeirydd (yr ysgrifennydd yn ei (h)absenoldeb) yn cynnal y CCB.

Busnes y CCB yw: -

- Derbyn a mabwysiadu adroddiad blynyddol y swyddogion
- Derbyn a mabwysiadu'r cyfrifon
- Ethol swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Gweithredol fel y pennir yn briodol
- Trafod a phleidleisio am unrhyw gynigion eraill ar ôl rhoi deng diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig.

Bydd deg y cant o'r aelodau cofrestredig neu bump aelod cofrestredig, pa bynnag un sydd fwyaf, yn creu cworwm ar gyfer y CCB a chyfarfodydd cyffredinol eraill.

9. Cyfarfodydd cyffredinol eithriadol (CCE)

Gall pump neu fwy o aelodau cofrestredig neu'r Pwyllgor Gweithredol alw cyfarfodydd cyffredinol eithriadol ar ôl rhoi o leiaf un mis calendr o rybudd ysgrifenedig i bob aelod cofrestredig arall, gan nodi dyddiad, amser, lleoliad, agenda a chynigion y cyfarfod; dylai pob aelod corestredig arwyddo eu henwau ar y rhybudd a dylent ysgrifennu eu henwau mewn print bras ar waelod y rhybudd

10. Terfynau gweithredol

Bydd Fforwm Treftadaeth Wrecsam yn gweithredu o fewn yr ardal a ddynodir fel Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar hyn o bryd, ond bydd yn datblygu a chynnal cysylltiadau â sefydliadau, mudiadau a mentrau priodol (yn wirioneddol ac yn rhithwir) mewn ardaloedd eraill.

11. Materion ariannol

Defnyddir yr holl arian a godir gan Fforwm Treftadaeth Wrecsam i ymestyn amcanion Fforwm Treftadaeth Wrecsam ac nid ar gyfer unrhyw bwrpas arall.

Bydd y trysorydd yn cadw cyfrif priodol o'r arian a bydd yn agor a chynnal cyfrif banc yn enw Fforwm Treftadaeth Wrecsam.

Bydd angen i ddau allan o dri swyddog etholedig dynodedig lofnodi i dynnu unrhyw arian o'r cyfrif.

Caiff cyfrifon y flwyddyn ariannol eu harchwilio gan unigolyn cymwys a benodir gan y CCB neu'r CCA nad ydynt yn aelod etholedig.

Paratoir cyfriflen incwm a gwariant yn flynyddol a chaiff ei chyflwyno yn y CCB

12. Newid y cyfansoddiad

Gellir ond newid y cyfansoddiad terfynol trwy gynnig yn y CCB neu'r CCA, a gefnogir gan gonsensws neu o leiaf trwy gytundeb rhwng dwy rhan o dair yn yr un cyfarfod.

13. Diddymiad

Caiff Fforwm Treftadaeth Wresam ei ddirwyn i ben trwy bleidlais yn y CCB neu'r CCA.

Ni chaiff unrhyw asedau sydd ar ôl wedi i bob dyled ac atebolrwydd gael ei ollwng eu dosbarthu ymysg aelodau, caiff ei roi i fudiad gwirfoddol sydd ag amcanion tebyg i'w gweinyddu mewn modd sy'n hollol elusengar yn ôl y gyfraith.

Mabwysiadwyd y cyfansoddiad hwn fel cyfansoddiad Fforwm Treftadaeth Wrecsam mewn cyfarfod cyhoeddus ar…….

Llofnod: **Swydd:**
Dyddiad:

Llofnod: **Swydd:**
Dyddiad: